



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



GWOBRAU ARLOESIEDD MARCHNATA 2013

**Clodfori a gwobrwyo arloesi ym maes marchnata
yn llyfrgelloedd ac archifau Cymru.**

cadarnhaol
gwreiddiol
newydd
syniad
!
?

Mae llyfrgelloedd ac archifau ar hyd a lled Cymru yn cynnal gweithgareddau marchnata arloesol - yn aml gydag adnoddau prin.

Bwriad y gwobrau hyn yw clodfori'r gwaith gwerthfawr y bydd staff llyfrgelloedd ac archifau yn ei wneud er mwyn dod â'u gwasanaethau at gynulleidfaoedd newydd a datblygu gweithgareddau newydd ar gyfer defnyddwyr presennol.

Cewch weld yr holl enillwyr blaenorol ar y pecyn offer staff yn

[llyfrgell.cymru.org/
pecynofferstaff](http://llyfrgell.cymru.org/pecynofferstaff)

Pam dylwn i gymryd rhan yn y Gwobrau Arloesedd Marchnata?

Mae'r gwobrau yn rhoi cyfle i staff llyfrgelloedd ac archifau gael cydnabyddiaeth genedlaethol am eu gwaith yn hyrwyddo eu gwasanaeth.

Mae categorïau ar wahân ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd ac archifau fel a ganlyn:

Llyfrgelloedd Cyhoeddus

- **1af – tlws a £500 o dalebau Amazon**
- **2il – tlws a £300 o dalebau Amazon**
- **3ydd – tlws a £200 o dalebau Amazon**

Llyfrgelloedd Addysg Uwch

- **tlws a £500 o dalebau Amazon**

Llyfrgelloedd Addysg Bellach

- **tlws a £500 o dalebau Amazon**

Archifau

- **tlws a £500 o dalebau Amazon**

Sylwch:

Gallwch ddefnyddio'r talebau fel y dymunwch e.e. eu rhannu i'r staff, eu defnyddio i hyrwyddo eich gwasanaeth llyfrgell neu archif.

Mewn rhai achosion mae'n bosib y bydd tlws 'â chanmoliaeth uchel' yn cael ei ddyfarnu yn ôl doethineb, y beirniaid



gwreiddiol

newydd

Manteision ychwanegol:

- Cyfle i gael sylw cadarnhaol ar y cyfryngau a meithrin cysylltiadau â'ch cyfryngau lleol
- Cyfle i feithrin partneriaethau newydd
- Y bri o ennill gwobr genedlaethol
- Cyfle gwych i adeiladu tîm ac ysbrydoli staff
- Cydnabod y rôl hanfodol y mae staff yn ei chwarae

Pa feini prawf a ddefnyddir wrth feirniadu'r ceisiadau?

Bydd ceisiadau yn cael eu beirniadu gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Gwreiddioldeb y syniad a pha mor addas ydyw ar gyfer y farchnad darged
- Meddwl yn greadigol ac arloesedd
- Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol

- Denu cynulleidfaoedd newydd
- Defnyddio cyfuniad o weithgarwch hyrwyddo yn effeithiol e.e. dylunio ac argraffu, ar lein
- Llwyddiant y prosiect o ran mynychu/ymateb
- Faint o sylw cadarnhaol a gafwyd yn y wasg
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol e.e. amser staff, offer, lleoliad, cyllideb
- Cynaliadwyedd y prosiect

Pwy fydd yn beirniadu'r ceisiadau?

- Bydd beirnia(i)d annibynnol perthnasol yn cael ei ddewis/ eu dewis
- Bydd penderfyniad y beirnia(i)d yn derfynol ac ni fydd gohebu o gwbl.



cadarnhaol

syniad

Telerau ac Amodau

- Mae'r gwobrau hyn yn agored i'r holl lyfrgelloedd cyhoeddus ac academiaidd a gwasanaethau archifau yng Nghymru (bydd ceisiadau yn cael eu derbyn gan lyfrgelloedd ac archifau unigol neu gan wasanaethau llyfrgell neu archif awdurdodau lleol/sefydliadau)
- Gall sefydliadau gyflwyno mwy nag un cais cyn belled â bod pob cais ar gyfer prosiect gwahanol
- Rhaid i brosiectau fod wedi'u cynnal rhwng 1af Ebrill – 31 Rhagfyr 2012
- Mae ceisiadau sy'n hyrwyddo gweithgareddau fel rhan o fentrau/ ymgyrchoedd cenedlaethol yn gymwys i gymryd rhan
- Gellir anfon ceisiadau yn Gymraeg a/neu yn Saesneg
- Rhaid cynnwys ffurflen gais wedi'i llenwi ar lein gyda phob ymgais
- Dylai ymgeiswyr gadw copi o'u cais fel cofnod

- Mae penderfyniad y beirnia(i)d yn derfynol o ran unrhyw ddyfarniad a wneir ac nid oes raid i'r trefnwyr ohebu o gwbl
- Gall ymgeiswyr ymddangos mewn datganiadau i'r wasg/sylw ar y cyfryngau a thrwy gymryd rhan yn y gwobrau maent yn cydsynio i hyn
- Mae'r trefnwyr yn mynnu'r hawl i beidio â chyflwyno gwobrau os nad yw safon y ceisiadau yn teilyngu hynny

Anfon eich ceisiadau

- Rhaid i bob cais gael ei lanlwytho trwy'r pecyn offer staff – llyfrgellcymru.org/pecynofferstaff
- Dyma fanylion mynediad y pecyn offer staff:
Enw defnyddiwr: librarywalesorg
Cyfrinair: 01staff
- **Sylwch y gallwch lanlwytho ceisiadau o 3ydd Rhagfyr 2012**
- Dylech lanlwytho pob cais erbyn dydd Gwener 25 Ionawr 2013 fan bellaf

Unrhyw gwestiynau?

Os bydd arnoch angen rhagor o gyngor am y gwobrau, cysylltwch â Jane

Ffôn: 01978 298861 **Ebost:** jane.purdie@wrexham.gov.uk

